

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2022.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

27 Ionawr 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, mae'r Llywydd wedi cael ei hysbysu bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn negyddol ac nad ydynt yn dilyn y confensiwn 21 diwrnod. Mae hyn yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau'n parhau i fod yn gymesur.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws ar hyn o bryd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws.

Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Deddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y [Memorandwm Esboniadol](#) i'r prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu ei bod yn ofynnol i bersonau sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws hunanynysu am gyfnod o 5 niwrnod (yn hytrach na chyfnod o 7 niwrnod). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan fo person yn y categori hwn ond ei bod yn ofynnol iddo ynysu yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 28 Ionawr 2022 o ganlyniad i gael hysbysiad i hunanynysu yn dilyn prawf COVID-19 positif, bod y cyfnod ynysu'n cael ei bennu yn unol â rheoliad 6 neu 7 o'r prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn, gydag effaith o ddechrau 28 Ionawr 2022, yn:

- diwygio rheoliadau 6 a 7 o'r prif Reoliadau i ddarparu ei bod bellach yn ofynnol i bersonau sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws hunanynysu am gyfnod o 5 niwrnod (yn hytrach na chyfnod o 7 niwrnod);
- darparu, pan oedd yn ofynnol i berson ynysu yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, fod diwedd y cyfnod ynysu i'w bennu yn unol â rheoliad 6 neu 7 fel y'i diwygir gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r cyngor diweddaraf gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a chyngor dilynol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghylch hyd y cyfnod hunanynysu ar gyfer achosion o COVID-19 a'r asesiad o'r ffactorau lliniaru i leihau'r risg y bydd pobl sy'n parhau i fod wedi'u heintio'n trosglwyddo'r feirws i eraill. Daw'r cyngor hwn yng nghyd-destun y problemau staffio sy'n cael eu profi ar draws y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol o

ganlyniad i nifer y bobl sy'n gorfod hunanynysu. Ar sail cyngor iechyd y cyhoedd mae'r cynnydd sydd wedi'i liniaru yn y risg y gallai unigolion heintus gael eu rhyddhau o fod yn hunanynysu yn cael ei gydbwyso gan y manteision cymdeithasol a ddaw yn sgil lleihau'r cyfnod ynysu ynghyd â'r potensial i'r polisi hwn gynyddu'r parodrwydd i gydymffurfio â chanllawiau ynysu.

5. Ymgynghori

O ystyried yr angen i leihau effeithiau hunanynysu ar ryddid yr unigolyn, ei lesiant ac effeithiau economaidd, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Rheoliadau yn parhau i fod yn gymesur.

O ystyried bod y diwygiadau hyn yn llacio'r mesurau presennol, mae asesiadau effaith cryno a gynhaliwyd yn flaenorol, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, wedi cael eu hadolygu ac maent yn parhau i fod yn ddilys. Caiff yr asesiadau effaith cryno hyn eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.